

Arolygiad o Bractis Cyffredinol (Ile rhoddwyd rhybudd)

Meddygfa Wdig, Ffordd y Cwm,
Wdig, Sir Benfro,

SA46 0BN,

Bwrdd Iechyd Prifysgol

Hywel Dda

Dyddiad yr arolygiad: 23 Mai 2017

Dyddiad cyhoeddi: 24 Awst 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	8
	Ansawdd profiad y claf	10
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	17
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	22
4.	Beth nesaf?	24
5.	Sut rydym yn arolygu practisau meddygon teulu.....	25
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	26
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith	27
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	28

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod pobl yng Nghymru'n derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: rydym yn sicrhau bod profiadau cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd yn ganolog i'r hyn rydym yn ei wneud
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu'n agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau gwrthrychol ar sail yr hyn rydym yn ei weld
- Cydweithredol: rydym yn adeiladu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull o weithredu'n effeithlon, yn effeithiol ac yn gymesur.

Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

Rhoi sicrwydd:

Rhoi barn annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliannau trwy adrodd a rhannu arferion da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn a welwn i dylanwadu ar bolisiau, safonau ac arferion.

1. Yr hyn a wnaethom

Gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gwblhau arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Feddygfa Wdig ar Ffordd y Cwm, Wdig, Sir Benfro, yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, ar 23 Mai 2017.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys rheolwr arolygu AGIC (arweinydd yr arolygiad), meddyg teulu, adolygydd cymheiriaid rheolwyr practis, ac adolygydd lleyg.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd y gwasanaeth yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Ceir manylion pellach am y modd yr ydym yn cynnal arolygiadau o bractisau meddyg teulu yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, roeddem o'r farn bod tystiolaeth fod Meddygfa Wdig yn darparu gwasanaeth iechyd boddhaol ar gyfer cleifion Wdig a'r ardaloedd oddi amgylch. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y practis yn cydymffurfio'n llawn â phob Safon Iechyd a Gofal ym mhob maes. Rhaid nodi bod y practis a'r staff a gyflogir yn y practis ar hyn o bryd yn cyflawni swyddogaethau i safon dda o ystyried nad oes partneriaid meddygon teulu na meddygon parhaol ar gyflog wedi bod yn y practis ers peth amser. O ganlyniad, roedd y practis yn cael ei reoli gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn gyffredinol.

O ystyried yr adborth a'r trafodaethau a gafwyd gyda chleifion yn ystod yr arolygiad, gwelwyd eu bod yn werthfawrogol iawn o'r gwasanaethau a ddarperir gan y practis yn gyffredinol. Nododd cleifion eu bod yn obeithiol y byddai recriwtio meddygon teulu parhaol yn gwthio'r gwasanaeth yn ei flaen, a fyddai'n sicrhau gwell profiad ac yn hybu diwylliant o ddilyniant o ran gofal gyda meddygon teulu.

Canfuom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd cleifion yn werthfawrogol iawn o'r gwasanaeth a ddarperir gan y practis.
- Roedd yr amgylchedd yn ddymunol a chyfforddus i gleifion.
- Roedd y staff yn hapus yn eu gwaith, ac roedd yn braf nodi hynny o ystyried yr holl newidiadau a oedd wedi digwydd yn y practis.
- Roedd rheolwr cymharol newydd y practis yn eiddgar i sicrhau y byddai amrywiaeth dda o wasanaethau o safon yn cael eu darparu yn y practis.
- Gwelwyd bod cleifion yn cael eu trin â pharch ac urddas gan bob aelod o'r staff.

Gwnaethom argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylai'r practis adolygu a gwerthuso ei bolisiâu a'i weithdrefnau rheoli cwynion.
- Mae angen gwneud gwelliannau i'r trefniadau rheoli heintiau.
- Mae angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â'r defnydd o adnoddau / darpariaethau Cymraeg.
- Rhaid i'r practis sicrhau bod digwyddiadau difrifol yn cael eu trafod a'u gwerthuso'n drylwyr, a bod y practis yn nodi'r digwyddiadau hyn ac yn dysgu oddi wrthynt.
- Rhaid i'r practis ddatblygu systemau a fydd yn galluogi i adborth ac awgrymiadau gael eu derbyn, eu gwerthuso, derbyn sylw, a'u trosglwyddo'n ôl i gleifion sydd wedi'u cofrestru yn y practis.

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Mae Meddygfa Wdig yn darparu gwasanaethau ar gyfer tua 4,300 o gleifion yn ardal Wdig a'r ardaloedd o amgylch ar hyn o bryd. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau meddygon teulu a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Mae'r practis yn cael ei reoli gan y bwrdd iechyd, ac mae'n cyflogi tîm staff sy'n cynnwys chwe derbynnydd, nyrs arwain y practis, nyrs practis, un cynorthwydd gofal iechyd, fflebotomydd, ymarferydd nyrsio uwch, ymwelydd iechyd, a rheolwr practis. Roedd y practis yn cael cymorth fferyllydd un diwrnod yr wythnos. O bryd i'w gilydd, roedd ymarferwyr parafeddyg uwch wedi'u lleoli yn y practis.

Fel y nodwyd yn flaenorol, mae Meddygfa Wdig yn cael ei rheoli gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn dilyn ymddeoliad partner y practis gryn amser yn ôl. Hyd yn hyn, nid yw'r practis wedi gallu recriwtio partner parhaol na meddyg teulu cyflogedig. Er mwyn diogelu'r gwasanaeth ym Meddygfa Wdig, mae'r bwrdd iechyd wedi bod yn cael gwasanaethau meddygon teulu locwm. Nid yw'r sefyllfa hon yn ddelfrydol gan nad yw'n caniatáu dilyniant o ran gofal i gleifion. Dywedwyd wrthym fod y bwrdd iechyd wrthi'n ceisio recriwtio meddygon teulu i'r practis. Mae staff y practis wedi bod yn gweithio'n ddiwyd yn ystod cyfnod ansicr iawn, a rhaid eu cymeradwyo am eu hymroddiad a'u brwdfrydedd yn ystod y cyfnod anodd hwn.

I hwyluso'r darllen, cyfeirir at Feddygfa Wdig fel y 'practis' trwy gydol yr adroddiad hwn.

Mae'r practis yn darparu amrediad o wasanaethau, gan gynnwys:

- Mân lawdriniaethau
- Clinig clwyfau
- Rheoli clefydau cronig, diabetes ac asthma
- Fflebotomi
- Ymweliadau iechyd
- Clinigau merched iach

- Imiwneiddio a chyingor teithio
- lechyd plant ac imiwneiddio plant

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (pan fo'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Ar y cyfan, roedd y cleifion yn fodlon ar yr amrywiaeth o wasanaethau a ddarparwyd yn y practis. Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch, a bod y staff bob amser yn gymwynasgar o ran rhoi cymorth a chyngor.

Roedd amgylchedd mewnol ac allanol y practis o safon dda, gyda digon o seddi a lle ar gael i gleifion â phroblemau symudedd. Roedd gwefan y practis o safon foddhaol, ac roedd yn darparu digon o wybodaeth i gleifion ynglŷn â'r gwasanaethau oedd ar gael, ac yn ymwneud â hunan-drin cyflyrau syml cyffredin. Roedd y wefan hefyd yn cynnwys gwybodaeth allweddol, megis amseroedd agor a rhifau ffôn cyswllt ar gyfer y practis.

Roedd yr ystafell aros yn darparu digon o le i gleifion eistedd yn gyfforddus, ac roedd amrywiaeth helaeth o wybodaeth am iechyd ac addysg ac adnoddau ar gael i gleifion.

Yn ystod ein hymweliad, cwblhawyd 13 o holiaduron. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

Mae'r staff i gyd yn gwneud yn dda iawn

Mae'r staff yn wych

Hoffwn pe byddai meddygon parhaol ar gael gan fy mod wedi gweld nifer o feddygon locwm

Cadw'n iach

Mae'r practis yn rhagweithiol o ran cynllunio ar gyfer dyfodol y gwasanaeth trwy gynnal cyfarfodydd tîm misol. Roedd y practis yn darparu amrywiaeth o wasanaethau ar gyfer tua 4,300 o gleifion. Roedd meddygon locwm,

ymarferwyr nyrsio uwch, ymarferwyr parafeddyg a fferyllwyr yn darparu'r rhan helaeth o ymgynghoriadau cleifion. Roedd y defnydd o feddygon locwm ar hyn o bryd yn ddigonol i sicrhau bod darpariaethau'r gwasanaeth iechyd yn cael eu darparu'n ddiogel. Yn anffodus, nid yw defnyddio meddygon teulu locwm bob amser yn caniatáu dilyniant o ran y gofal a ddarperir i gleifion. Roedd y practis yn rhagweithiol o ran ceisio recriwtio meddygon teulu parhaol.

Roedd y practis a'r bwrdd iechyd yn ymwneud â gwaith y grŵp clwstwr meddygon teulu lleol¹ er mwyn ceisio gwerthuso a gwella gwasanaethau i gleifion yn y dyfodol.

Gofal ag urddas

Yn ystod yr ymweliad arolygu cyfan, nodwyd bod y staff yn cynorthwyo gydag ymholiadau cleifion mewn modd digynnwrf ac urddasol. Yn benodol, gwelwyd staff yn cynorthwyo cleifion i ddefnyddio'r system gyfrifiadurol mewngofnodi awtomataidd. Cymerwyd galwadau ffôn yng nghefn ystafell swyddfa'r dderbynfa. Gwelwyd hysbysiad wrth ddesg y dderbynfa yn hysbysu cleifion y gallent ofyn am drafod unrhyw faterion yn gyfrinachol gyda staff y dderbynfa'n breifat. Gwelwyd hyn ar waith yn ystod ein harolygiad.

Gwnaethom arsylwi sut roedd y practis yn gweithredu a gwnaethom edrych ar bolisiau a gweithdrefnau, a chafwyd cadarnhad bod systemau sefydledig ar waith yn y practis i sicrhau cyfrinachedd cleifion.

Cynhaliwyd pob ymgynghoriad â chleifion gan un o'r meddygon teulu locwm, ymarferwyr nyrsio, ac ymarferwyr parafeddyg yn breifat ac â drysau'r ystafell ymgynghori ar gau.

Gofynnwyd i gleifion clinigydd o ba ryw fyddent yn dymuno ei gael pa bryd bynnag y bo'n bosibl. Roedd hebryngwyr hefyd ar gael i gleifion bob amser. Fel rheol, swyddogaeth nyrsys y practis fyddai hyn, neu os na fyddai un ar gael, byddai aelod o dîm y dderbynfa'n gwneud y gwaith hwn er nad oedd yr un ohonynt wedi derbyn hyfforddiant ffurfiol yn hyn o beth. Rhaid i'r practis sicrhau

¹ Mae bwrdd iechyd unigol yn cyfod meddygon teulu a phractisau lleol i greu 'clwstwr' meddygon teulu. Mae meddygon teulu ac uwch staff yn y grwpiau clwstwr yn chwarae rhan allweddol o ran cefnogi gwaith parhaus Rhwydwaith (iechyd) Ardal er budd cleifion.

bod pob aelod o'r staff sy'n ymgymryd â dyletswyddau hebryngwr yn derbyn hyfforddiant priodol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid darparu hyfforddiant a chymorth priodol i bob aelod o staff y dderbynfa sy'n ymgymryd â dyletswyddau hebryngwr.

Gwybodaeth i gleifion

Roedd llawer iawn o wybodaeth ar gael yn ardal aros y practis. Roedd adnoddau hybu ac addysgu am iechyd ar gael yn rhwydd ar gyfer amrywiaeth eang o gyflyrau. Yn ogystal â hyn, roedd gwybodaeth yn ymwneud â sefydliadau'r trydydd sector, a oedd ar gael er mwyn darparu gwasanaethau cymorth arbenigol a chyngor.

Dywedwyd wrthym fod taflenni gwybodaeth mewn ffont mawr ar gael ar gais. Roedd rhywfaint o'r wybodaeth ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg, ond ychydig iawn. Ar y pryd, dim ond yn Saesneg yr oedd y system gyfrifiadurol mewngofnodi awtomataidd ar gael hefyd.

Cyfathrebu'n effeithiol

I gleifion a oedd yn cysylltu â'r practis i wneud apwyntiad, gofynnwyd iddynt beth oedd y rheswm dros yr apwyntiad, ac yna byddai meddyg yn y practis yn cysylltu â'r claf ac yn trafod a oedd angen apwyntiad arno, neu byddai galwadau'n cael eu trosglwyddo i system frysbenneu lle byddai meddyg teulu'n cymryd yr alwad ac yn gwerthuso a oedd apwyntiad yn angenrheidiol. Roedd y meddyg brysbenneu hefyd yn gallu rhoi presgripsiynau i gleifion, a byddai modd i'r cleifion eu casglu yn y practis. Roedd ymweliadau meddygon teulu y tu allan i oriau yn cael eu cofnodi a'u storio ar gyfrifiadur. Byddai meddygon locwm yn gweithio yn y practis yn adolygu'r ymweliadau hyn wedyn ac yn awdurdodi unrhyw brofion/argymhellion pellach. Amlygwyd materion o bwys er mwyn i'r meddyg ar ddyletswydd ymateb mewn modd amserol. Darparwyd gwybodaeth i'r practis yn ymwneud â chleifion a ryddhawyd o ysbytai ar ffurf electronig.

Rhoddwyd unrhyw faterion a oedd angen eu gweithredu i'r staff trwy'r pecyn meddalwedd electronig a oedd ar waith yn y practis, megis canlyniadau profion annormal. Unwaith y byddai'r camau gweithredu dynodedig wedi'u cwblhau, byddai hyn yn cael ei gofnodi ar y system. Mae gweinyddwr yn y practis yn goruchwyllo hyn er mwyn sicrhau bod y gofal a'r driniaeth a ddarperir yn canolbwyntio ar y claf a'u bod yn ddiogel ac yn effeithiol.

Nid oedd system dolen sain ar gael yn y practis. Nid oedd hyn yn caniatáu i gleifion â systemau cymhorthion clywed gyfathrebu mor effeithiol â phosib.

Roedd system fewngofnodi electronig ar gael yn y practis, a chafodd ei defnyddio'n helaeth yn ystod y dydd. Gwnaeth y staff gynorthwyo cleifion i'w defnyddio, a gwelwyd ei bod yn gweithredu'n effeithiol. Nodwyd mai dim ond yn Saesneg yr oedd modd defnyddio'r system. Rhaid i'r practis sicrhau bod y Gymraeg yn cael yr un ystyriaeth â'r Saesneg.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod system dolen sain ar gael i gleifion sydd ag anawsterau clywed.

Rhaid i'r practis sicrhau bod adnoddau Cymraeg yn cael eu hyrwyddo yn y practis.

Gofal amserol

Fel y nodwyd yn flaenorol, roedd gan y practis systemau a phrosesau ar waith i alluogi cleifion i fynychu ymgynghoriad. Gellid trefnu ymgynghoriadau dros y ffôn yn y cnawd hefyd neu trwy ffonio'r feddygfa rhwng 8.30am a 6pm.

Roedd meddygon teulu hefyd yn gallu darparu apwyntiadau dilynol ychwanegol unwaith y byddai cleifion wedi cael eu gweld. Roedd y system brysbennu newydd wedi peri rhywfaint o bryder i gleifion y practis, oherwydd, yn hanesyddol, nodwyd bod trefnu apwyntiadau yn gymharol hawdd a syml. Roedd y practis wedi ceisio darparu gwybodaeth i gleifion ynglŷn â'r system frysbennu newydd trwy roi gwybodaeth yn y practis ac ar ei wefan.

Roedd y staff yn hysbysu cleifion ar lafar pe bai unrhyw oedi o ran cael eu gweld gan glinigydd. Roedd sgrin deledu yn yr ystafell aros yn darparu llawer o wybodaeth am y practis hefyd, ac roedd yn darparu manylion ynghylch mentrau hybu iechyd ac addysg iechyd. Un eitem o'r fath a nodwyd oedd rheoli heintiau ac arferion da i gleifion.

Roedd y practis yn bwriadu gweithredu system trefnu apwyntiadau ar-lein trwy'r porth 'Fy Iechyd Ar-lein' yn y dyfodol.

Nodwyd bod ail farn yn cael ei rhoi yn fewnol weithiau. Roedd hyn yn amlwg gyda'r uwch-ymarferydd nyrsio, a oedd yn meddu ar gymwysterau, sgiliau a phrofiad a oedd yn ymwneud yn benodol â dermatoleg. Fel arfer, byddai unrhyw atgyfeiriadau gofynnol yn cael eu cwblhau'r diwrnod canlynol os nad yn ystod yr ymgynghoriad. Yn anffodus, oherwydd mai dim ond meddygon teulu

locwm oedd yn gweithio yn y practis, ni chynhaliwyd adolygiad gan gymheiriaid yn y practis ar y pryd. Ni chynhaliwyd trafodaethau ychwaith ynglŷn â chyfraddau atgyfeirio ar gyfer meddygon teulu locwm o ystyried meddygon teulu locwm eraill yn y practis / yn y clwstwr lleol. Roedd yn braf nodi bod gweithdrefnau trylwyr ar waith i sicrhau bod atgyfeiriadau a wnaed gan glinigwyr wedi'u derbyn a'u gweithredu mewn modd amserol.

Roedd atgyfeiriadau at ofal eilaidd i gyd yn cael eu gwneud trwy Borth Cyfathrebu Clinigol Cymru.² Roedd atgyfeiriadau'n cael eu gwirio gan aelod enwebedig o'r staff gweinyddol i sicrhau eu bod wedi cyrraedd pen eu taith yn yr ysbyty perthnasol.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Ar y cyfan, roedd yr adborth a gafwyd gan gleifion yn gadarnhaol. Gwelsom ddiwylliant a oedd yn canolbwyntio ar y claf a thystiolaeth gref fod y staff yn gryf eu cymhelliant ac yn ysbrydoledig i ddarparu gofal caredig a thosturiol. Roedd y practis yn cefnogi gofalwyr mewn modd effeithiol, ac roedden nhw'u hunain weithiau'n fregus ynghyd â'r unigolion yr oeddent yn gofalu amdanynt.

Roedd y practis yn cydweithio'n agos â'r gwasanaeth nyrsys ardal er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf am gleifion yr ymwelwyd â nhw ac a oedd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gartref.

Neilltuwyd apwyntiadau hirach i gleifion ag anghenion ychwanegol er mwyn sicrhau eu bod yn cael digon o amser a chymorth i drafod unrhyw bryderon meddygol. Fel arfer, byddai gofalwyr yn mynychu gyda'r cleifion hyn er mwyn darparu faint o gymorth a ddynodwyd.

Roedd y practis mewn adeilad a oedd wedi ei adeiladu i'r pwrpas. Roedd yr ystafelloedd ymgynghori ar y llawr daear. Roedd ardal barcio o flaen ac wrth ochr yr adeilad, gyda manna parcio dynodedig i bobl ag anabledd.

² Mae Porth Cyfathrebu Clinigol Cymru yn system genedlaethol yng Nghymru ar gyfer cyfnewid gwybodaeth glinigol fel llythyrau atgyfeirio yn electronig.

Hawliau pobl

Roedd taflen y practis yn cynnwys gwybodaeth ynghylch hawliau a chyfrifoldebau pobl. Roedd yn nodi pwysigrwydd y bartneriaeth rhwng cleifion a'r tîm gofal iechyd sylfaenol. Ethos y practis oedd trin cleifion yn gwrtais bob amser ac roedd disgwyl i gleifion drin staff yn barchus yn yr un modd. Nodwyd mai'r cleifion oedd yn gyfrifol am gadw at apwyntiadau a rhoi digon o wybodaeth am faterion megis afiechydon yn y gorffennol, meddyginiaethau, derbyniadau i'r ysbyty, ac unrhyw fanylion perthnasol eraill i'r practis.

O drafod â thîm y practis, gwelwyd yn glir bod y practis yn cydymdrechu i weithio'n agos â gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol eraill a sefydliadau'r trydydd sector, megis grwpiau cymorth, er lles cleifion a'u gofalwyr.

Gwrando a dysgu o adborth

Nid oedd y practis ar y pryd yn gweithredu grŵp cyfranogiad cleifion. Nododd rheolwr y practis fod hwn yn faes gweithredu a oedd o ddi-ddordeb mawr iddynt a rhagwelwyd y byddai grŵp o'r fath yn cael ei sefydlu dros y misoedd i ddod.

Roedd poster ar gael yn hysbysu cleifion y gallent roi adborth i'r bwrdd iechyd yn uniongyrchol. Ar y pryd, nid oedd unrhyw flychau sylwadau / adborth ar gael yn y practis i gleifion roi adborth. Derbyniwyd adborth fel rheol trwy bryderon / cwynion. Nododd rheolwr y practis y byddai derbyn blwch sylwadau / adborth o fudd i'r practis wrth edrych at ddyfodol y practis a'r ddarpariaeth gwasanaeth. Byddai'r maes hwn yn caniatáu i'r practis ddangos sut yr oedd wedi dysgu o ganlyniad i adborth a datblygu'r gwasanaethau i gleifion.

Amlygwyd nad oedd posteri / taflenni ar gael yn yr ystafell aros yn hysbysu cleifion o'r broses i'w dilyn er mwyn mynegi cwyn neu bryder. Yn ogystal â hyn, nid oedd unrhyw wybodaeth ar gael ynglŷn â sefydliadau cysylltiedig, megis y cyngor iechyd cymuned ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, fel sefydliadau ychwanegol sy'n gallu derbyn cwynion / pryderon.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn darparu gwybodaeth i gleifion ynghylch y dulliau o fynegi cwynion / pryderon, a rhoi manylion y sefydliadau cysylltiedig y gellir cysylltu â nhw'n uniongyrchol i drafod y mathau hyn o broblemau.

Mae gofyn i'r practis ddarparu disgrifiad o'r camau a gymerwyd i sicrhau ei fod

yn rheoli pryderon/cwynion yn unol â threfniadau Gweithio i Wella.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Canfuom fod y tîm staff yn y practis yn rhoi pwyslais ar sicrhau bod gwasanaethau diogel o ansawdd uchel yn cael eu darparu i gleifion. Roedd polisïau a gweithdrefnau diogelu plant ac oedolion agored i niwed ar waith, ac roedd staff / clinigwyr wedi cwblhau hyfforddiant penodol.

Roedd pob aelod o'r staff yn deall ac yn cyflawni eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau i fynegi pryderon ac adrodd digwyddiadau neu ddigwyddiadau a fu bron â digwydd. Roedd y sampl o gofnodion cleifion y gwnaethom eu hadolygu o safon foddhaol. Roedd system drylwyr ar waith yn y practis ar gyfer cyfathrebu mewnol, a oedd yn sicrhau nad oedd unrhyw oedi diangen wrth brosesu atgyfeiriadau, gohebiaeth a chanlyniadau profion.

Gofal diogel

Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch

Roedd y mynediad i gleifion i'r practis trwy ddrws electronig. Roedd y mynediad i'r adeilad yn eang, a oedd yn galluogi cleifion â phroblemau symudedd i fynd i'r adeilad yn rhwydd. Yn ystod ein hymwelid, gwelsom fod digon o seddi ar gael i gleifion a digon o le i gleifion â chymhorthion symudedd.

Gwelwyd bod yr holl fannau i gleifion yn lân, yn ddestlus ac yn daclus. Ar y cyfan, roedd y cyfleusterau'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Roedd yr arwyddion yn weladwy, ac yn hysbysu cleifion o'r manau pwysig yn y practis.

Yn ystod ein trafodaethau â'r staff, nodwyd y byddai unrhyw risgiau posibl o fewn y practis yn cael eu mynegi ar unwaith i reolwr y practis.

Nid oedd yr un o'r biniau offer miniog a welwyd yn yr ystafelloedd ymgynghori yn orlawn, ac roeddent yn cael eu storio'n briodol. Nid oedd yr ystafell a oedd yn cynnwys blychau offer miniog llawn â chaeadau yn cael ei chynnal a'i chadw mewn modd diogel. Gadawyd yr allweddi yng nghlo'r drws pan nad oedd yn cael ei defnyddio. Felly, roedd hyn yn peri risg diogelwch i'r practis, gan y gallai pobl heb ganiatâd gael mynediad i'r man hwn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod cypyrddau sy'n cynnwys biniau wedi'u llenwi ag offer miniog dan glo bob amser pan nad ydynt yn cael eu defnyddio, a bod yr allwedd yn cael ei chadw'n ddiogel bob amser.

Atal a rheoli heintiau

Roedd y man aros yn cynnwys ardal i blant bach, a oedd yn darparu teganau a llyfrau i blant. Nodwyd na chynhaliwyd archwiliadau rheoli heintiau / glanhau ar gyfer ardal y plant. Rhaid i'r practis sicrhau bod ardaloedd yn y practis sy'n hygyrch i gleifion yn cael eu monitro'n agos mewn perthynas ag atal heintiau, oherwydd gallent fod yn ffynhonnell bosibl o groes-heintio, a gallent roi cleifion mewn perygl o gael clefyd heintus.

Yn ystod trafodaethau â'r staff, cadarnhawyd fod ganddynt fynediad at gyfarpar diogelu personol fel menig a ffedogau plastig untro, er mwyn lleihau'r tebygolrwydd o groes-heintio. Roedd yr holl fannau triniaeth glinigol a welwyd fel rhan o'r arolygiad yn lân ac yn daclus. Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael yn y manau clinigol ac yn y toiledau.

Roedd hylif diheintio dwylo ar gael yn y practis, ac anogwyd pobl a oedd yn defnyddio'r adnodd mewngofnodi electronig i ddiheintio eu dwylo cyn defnyddio'r system.

Yn rhan o'r arolygiad, edrychwyd ar gyfleusterau toiled y cleifion. Roedd yn ymddangos eu bod yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol ac roedd peiriant cyflenwi sebon ar gael. Tynnwyd sylw at y ffaith bod bin y gweithredwyd â llaw yn yr ystafell doiledau, ac nid yw hyn yn hyrwyddo'r arferion atal a rheoli heintiau gorau. Rhaid i'r practis sicrhau bod bin a weithredir â throed ym mhob ystafell doiledau er mwyn lleihau croes-heintio.

Roedd gwastraff clinigol yn cael ei storio y tu allan mewn cynwysyddion priodol. Nodwyd yn ystod ein hymweliad fod bagiau gwastraff wedi'u gadael yn esgeulus ar ben y biniau, ac nad oedd y cynwysyddion hyn wedi'u cau'n

ddigonol. Rhaid i'r practis sicrhau bod gwelliannau'n cael eu gwneud i'r gweithdrefnau storio gwastraff clinigol a'u diogelwch.

Roedd y llenni a ddefnyddiwyd mewn ystafelloedd ymgynghori a thriniaeth o ddeunydd ffabrig. Nodwyd nad oedd yr amserlenni glanhau a diheintio'r llenni hyn yn hysbys. Roedd hyn yn peri problem posibl o ran rheoli ac atal heintiau. Cynghorwyd y practis i werthuso'r maes gweithredu hwn, a rhoi mesurau priodol ar waith i leihau achosion posibl o groes-heintio. Dylai'r practis ystyried defnyddio llenni urddas tafladwy.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau y gwneir amserlenni ar gyfer glanhau ardaloedd y plant a'u bod yn cael eu monitro yn unol â hynny.

Rhaid i'r practis sicrhau bod pob bin yn y toiledau yn cael ei weithredu â throed.

Rhaid i'r practis sicrhau y gwaredir ac y cedwir gwastraff clinigol mewn modd diogel a thrylwyr.

Rhaid i'r practis sicrhau bod y llenni urddas a ddefnyddir mewn ystafelloedd ymgynghori a thriniaeth yn cael eu cynnal a'u cadw, a'u diheintio, ar adegau priodol, neu ar unwaith os ydynt yn cael eu heintio.

Rheoli meddyginiaethau

Gellid gofyn am bresgripsiynau amlroddadwy yn y cnawd yn y practis neu mewn fferyllfeydd lleol, ar-lein trwy'r porth 'Fy lechyd Ar-lein', neu drwy'r post.

Dywedwyd wrthym fod rhai fferyllfeydd lleol yn cynnig gwasanaeth dosbarthu ar gyfer meddyginiaeth. Nodwyd fod hyn yn cael ei drefnu trwy'r fferyllfa. Nod y practis oedd prosesu presgripsiynau amlroddadwy o fewn 48 awr i'w derbyn. Hysbyswyd cleifion trwy eu presgripsiynau pan fyddai angen adolygu eu meddyginiaeth.

Archwiliwyd y troli a'r cyffuriau brys, a nodwyd eu bod yn ddiogel ac effeithiol ar wahân i argaeledd padiau pediatrig i'w defnyddio gyda'r diffibriliwr. Tynnwyd sylw rheolwr y practis at hyn a dywedodd y byddai hyn yn cael ei unioni ar unwaith. Nodwyd bod y diffibriliwr yn cael ei wirio'n rheolaidd ac roedd yr offer yn hygyrch i'r holl staff.

Roedd fferylydd o'r bwrdd iechyd yn rhoi cymorth hanfodol i'r practis un diwrnod yr wythnos, mewn perthynas â phob agwedd ar reoli meddyginiaethau. Nodwyd bod system effeithiol o adolygu meddyginiaethau cleifion ar waith.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Yr ymwelydd iechyd oedd y nyrs arwain ar gyfer y practis mewn perthynas â diogelu. Roedd y staff clinigol wedi derbyn hyfforddiant Lefel 3. Roedd y staff gweinyddol a'r dderbynfa wedi derbyn hyfforddiant mewn diogelu hefyd, ac wedi derbyn hyfforddiant Lefel 1.

Roedd gan y practis ffolder amddiffyn plant dynodedig, a oedd yn cynnwys llawer iawn o wybodaeth. Roedd prosesau a gweithdrefnau ar gael gydag enwau pobl ddynodedig i gysylltu â nhw os oedd gan staff bryderon ynghylch diogelwch. Roedd yn gadarnhaol nodi bod gan y practis berthynas weithio agos iawn â'r gwasanaeth ymwelwyr iechyd. Dywedwyd wrthym fod ymwelydd iechyd yn bresennol yn yr adeilad y rhan fwyaf o ddyddiau, ac y gellir mynegi unrhyw bryderon iddyn nhw hefyd.

Roedd y system feddalwedd ar waith yn y practis yn caniatáu amlygu cleifion a oedd ar y gofrestr mewn perygl neu'n agored i niwed. Pan nodwyd bod cleifion wedi cael eu tynnu oddi ar y gofrestr mewn perygl, neu nad oeddent yn agored i niwed, byddai eu cofnodion yn cael eu diweddarau'n unol â hynny i gynrychioli adroddiad gwir a chyfredol.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Nodwyd bod y gweithdrefnau rheoli digwyddiadau o bwys yn annigonol yn y practis. Ni thrafodwyd digwyddiadau o bwys ar draws y practis. Byddai staff y practis yn cysylltu â meddygon teulu locwm yn uniongyrchol i nodi unrhyw ddigwyddiadau fyddai angen eu hadolygu, eu gwerthuso neu eu gweithredu. Nid oedd y maes hwn o reoli a llywodraethu'r practis yn rhoi'r cyfle i aelodau'r staff ddysgu oddi wrth y digwyddiadau hyn. Mae gwerthuso digwyddiadau o bwys yn drylwyr yn elfen sylfaenol o lywodraethu gwasanaeth, gwella gwasanaeth, a hyrwyddo cyfleoedd dysgu agored a thryloyw i staff y practis.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis gyflwyno system drylwyr, agored a thryloyw er mwyn trafod a gwerthuso digwyddiadau o bwys.

Cadw cofnodion

Roedd y practis yn cyflogi clerccodiod / crynhoi, a oedd wedi derbyn hyfforddiant priodol rai blynyddoedd yn ôl. Dim ond un aelod o'r staff oedd yn ymgymryd â'r dyletswyddau hyn yn barhaol. Fodd bynnag, yn dilyn yr arolygiad, dywedwyd wrthym y gallai aelodau eraill o'r staff sy'n gweithio yn y practis wneud y dyletswyddau hyn hefyd os oedd angen. Nodwyd bod safon y crynhoi a'r codio'n dda.

Yn ystod ein hymweliad, nodwyd nad oedd systemau ar waith i werthuso ansawdd y crynhoi a'r chodio. Dywedwyd wrthym fod protocol wedi bod ar gael yn hanesyddol i sicrhau ansawdd y crynhoi a'r codio. Cynghorir y practis i adolygu'r maes gweithredu hwn a chyflwyno systemau sy'n caniatáu gwerthuso sicrwydd ansawdd crynhoi gwybodaeth mewn modd cynhwysfawr a thrylwyr.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis gyflwyno systemau sy'n caniatáu gwerthuso sicrwydd ansawdd crynhoi gwybodaeth yn rheolaidd.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.

Gwnaethom nodi bod y staff yn gwbl ymwybodol a deallus ynghylch eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau yn y practis. Dywedwyd wrthym hefyd bod y staff yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth wrth eu gwaith a bod rheolwr y practis yn gweithredu dull rheoli cynhwysol.

Roeddem yn gallu cadarnhau bod aelodau'r tîm yn cael y cyfle i ymgymryd â hyfforddiant perthnasol i'w gwaith a'u datblygiad.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Roedd y diwylliant arweinyddiaeth a ddangosodd rheolwr y practis yn agored a thryloyw. Roedd gan reolwr y practis ddealltwriaeth glir o anghenion y staff ac roedd yn ymroddedig. Canfuom lefelau da o ran boddhad y staff.

Fel y nodwyd yn flaenorol, nid oedd systemau ar waith a oedd yn galluogi clinigwyr i drafod achosion clinigol. Ni chynhaliwyd adolygiadau achos na dadansoddiad o wraidd digwyddiadau.

Nid oedd systemau ar waith i ganiatáu arfarnu achosion clinigol ac adolygu ymgynghoriadau gan gymheiriaid er mwyn cynorthwyo'r gwaith o annog y practis i ddysgu a datblygu mwy. Unwaith eto, gallai hyn fod oherwydd bod meddygon teulu locwm yn gweithio yn y practis. O recriwtio staff parhaol, y gobaith ar gyfer y dyfodol oedd y byddai'r maes hwn o sicrwydd clinigol yn cael ei ddatblygu mewn modd trylwyr.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis gyflwyno systemau sy'n caniatáu i arfarnu achosion clinigol ac adolygu achosion clinigol gan gymheiriaid fod yn elfennau hanfodol o'r systemau sicrhau ansawdd yn y practis.

Staff ac adnoddau

Y gweithlu

Canfuom fod lefel uchel o ran ymgysylltiad staff a bod polisi drws agored wedi'i sefydlu ar gyfer cael mynediad at reolwr y practis a'r uwch staff. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn fodlon iawn ar eu swyddogaethau a'u bod yn teimlo eu bod yn cael digon o gefnogaeth.

Nodwyd bod pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad yn hapus yn gyffredinol yn eu gwaith yn y practis. Roedd nifer o'r staff wedi gweithio yn y practis ers nifer o flynyddoedd, ond roedd y partneriaid meddyg teulu a rheolwr y practis wedi gadael y practis yn ddiweddar, ac felly roedd y staff wedi profi ansefydlogrwydd. Nodwyd yn glir fod rheolwr newydd y practis yn gweithio'n ddiflino o ran sicrhau bod y staff yn teimlo'n rhan o'r tîm, a'u bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf o ran unrhyw ddatblygiadau ar gyfer y dyfodol.

Roedd y bwrdd iechyd wedi rhoi cefnogaeth a chymorth i'r rheolwr practis a'r staff yn ystod y cyfnod y bu'r practis heb bartner na meddygon teulu parhaol.

Yn ystod trafodaethau â'r staff, nodwyd eu bod yn cael cyfleoedd i fynyachu hyfforddiant perthnasol, ac roedd y cofnodion staff yn cadarnhau hyn. Yn ystod trafodaethau â'r nyrsys, cadarnhawyd nad oedd unrhyw bryderon ynglŷn â mynychu'r hyfforddiant gofynnol er mwyn cael ailddilysiad³ o'u cofrestriad proffesiynol gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

³ Ailddilysiad yw'r broses newydd y mae angen i bob nyrs a bydwraig yn y DU ei dilyn er mwyn cadw eu cofrestriad â'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau, maent wedi'u nodi yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bo'n berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynglŷn â diogelwch cleifion lle rydym yn nodi bod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn ein hysbysu o'r camau gweithredu brys maent yn eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn nodi bod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn ein hysbysu o'r camau y maent yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i sicrhau AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw digonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws adrannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu practisau meddygon teulu

Mae arolygiadau fel arfer yn rhai lle rhoddir rhybudd. Mae practisau meddygon teulu yn derbyn hyd at 12 wythnos o rybudd cyn arolygiad. Mae hyn fel y bydd trefniadau yn gallu cael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn peri cyn lleied o amhariad â phosibl i gleifion.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr practisau ar ddiwedd yr arolygiad, a hynny mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut mae practisau meddygon teulu yn bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Rydym yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill lle bo'n berthnasol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg o'r safonau gofal o fewn practisau meddygon teulu.

Mae manylion pellach am sut mae AGIC yn arolygu [practisau meddygon teulu](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatrwyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y claf	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon a oedd angen sylw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn			

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Meddygfa Wdig

Dyddiad yr arolygiad: 23 Mehefin 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad ei bod yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn ein hysbysu o'r camau gweithredu brys maent yn eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dim materion sicrwydd dybryd wedi'u nodi				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd ag atebolrwydd a chyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella'n cael ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras): Paula Williams

Swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 12 Gorffennaf 2017

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Meddygfa Wdig

Dyddiad yr arolygiad: 23 Mehefin 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn nodi bod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn ein hysbysu o'r camau y maent yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Rhaid darparu hyfforddiant a chymorth priodol i bob aelod o staff y dderbynfa sy'n ymgymryd â dyletswyddau hebryngwr.	4.1 Gofal ag urddas	Ceisio hyfforddiant i hebryngwyr a'i ddarparu i bob aelod o'r staff.	Rheolwr y Practis	Erbyn 30 Medi 2017
Rhaid i'r practis sicrhau bod system dolen sain ar gael i gleifion sydd ag anawsterau clywed. Rhaid i'r practis sicrhau bod adnoddau Cymraeg yn cael eu hyrwyddo yn y practis.	3.2 Cyfathrebu'n effeithiol	System dolen sain wedi'i harchebu a'i gosod yn y practis. Hysbysiadau wedi'u gosod drwy'r feddygfa i hysbysebu'r system dolen sain. Swyddog Cymraeg Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i ymweld â'r practis, a rhoi cyngor ar hyrwyddo'r Gymraeg yn	Rheolwr y Practis Rheolwr y Practis	Erbyn 31 Awst 2017 Erbyn 31 Gorffennaf 2017

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		y practis. Y sgrin hysbysebu yn y dderbynfa wedi'i diweddarau i ddarparu gwybodaeth yn y Gymraeg, ac mae'r sgrin fewngofnodi ar gyfer apwyntiadau bellach yn cynnig opsiwn i'w chwblhau yn y Gymraeg hefyd.	Goruchwyliwr Dros Dro y Feddygfa	Cwblhawyd ar 10 Gorffennaf 2017
<p>Rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn darparu gwybodaeth i gleifion ynghylch y dulliau o fynegi cwynion/pryderon, a rhoi manylion y sefydliadau cysylltiedig y gellir cysylltu â nhw'n uniongyrchol i drafod y mathau hyn o broblemau.</p> <p>Mae gofyn i'r practis ddarparu disgrifiad i AGIC o'r camau a gymerwyd i sicrhau ei fod yn rheoli pryderon/cwynion yn unol â threfniadau Gweithio i Wella.</p>	6.3 Gwrando a dysgu o adborth	<p>Mae taflenni 'Gweithio i Wella' wedi'u harchebu yn Saesneg ac yn Gymraeg ar gyfer y dderbynfa. Mae taflen hawdd ei darllen wedi'i gosod yn y dderbynfa. Mae manylion cyswllt y ganolfan Cymorth i Gleifion yn cael ei hysbysebu yn y dderbynfa.</p> <p>Mae poster wedi'i ddylunio ac yn cael ei arddangos yn y dderbynfa sy'n nodi manylion cyswllt rheolwr y practis a'r practis ar gyfer mynegi cwynion a phryderon a sylwadau canmoliaethus.</p> <p>Cafodd blwch awgrymiadau ei archebu ac mae'n cael ei arddangos yn y dderbynfa i annog cleifion i roi adborth</p>	Rheolwr y Practis Rheolwr y Practis Rheolwr y Practis	Erbyn 31 Gorffennaf 2017 Erbyn 31 Gorffennaf 2017

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>ynglŷn â gwasanaethau.</p> <p>Mae polisi cwyno wedi'i ysgrifennu ar gyfer y practis. Mae'r polisi'n nodi manylion sefydliadau cysylltiedig y gall cleifion gysylltu â nhw am gyngor a chefnogaeth, ac mae'n cyd-fynd â chanllawiau ac amserlenni Gweithio i Wella. Mae'r polisi ar gael yn y practis ac ar wefan y practis.</p>		Erbyn 31 Gorffennaf 2017
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol				
Rhaid i'r practis sicrhau bod cypyrddau sy'n cynnwys biniau wedi'u llenwi ag offer miniog dan glo bob amser pan nad ydynt yn cael eu defnyddio, a bod yr allwedd yn cael ei chadw'n ddiogel bob amser.	2.1 Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch	Mae'r cwpwrdd yn cael ei gadw dan glo bob amser ac mae'r allwedd yn cael ei chadw yn ystafell y nyrs.	Nyrs Arwain y Practis	Ar waith ar hyn o bryd
Rhaid i'r practis sicrhau y gwneir amserlenni ar gyfer glanhau ardaloedd y plant a'u bod yn cael eu monitro yn unol â hynny.	2.4 Atal a rheoli heintiau a dadheintio	Mae'r amserlen lanhau wedi'i chytuno ar gyfer ardal y plant ac wedi'i harddangos ar y wal. Mae'r amserlen yn cael ei diweddarau bob tro ar ôl glanhau.	Rheolwr y Practis	Erbyn 31 Gorffennaf 2017
Rhaid i'r practis sicrhau bod pob bin yn y			Rheolwr y Practis	Cwblhawyd

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>toiledau yn cael ei weithredu â throed.</p> <p>Rhaid i'r practis sicrhau y gwaredir ac y cedwir gwastraff clinigol mewn modd diogel a thrylwyr.</p> <p>Rhaid i'r practis sicrhau bod y llenni urddas a ddefnyddir mewn ystafelloedd ymgynghori a thriniaeth yn cael eu cynnal a'u cadw, a'u diheintio, ar adegau priodol, neu ar unwaith os ydynt yn cael eu heintio.</p>		<p>Mae'r biniau yn y toiledau yn cael eu gweithredu â throed erbyn hyn.</p> <p>Caiff gwastraff clinigol ei gasglu pob pythefnos. Cysylltwyd â'r adran ystadau, ac mae'r biniau gwastraff y tu allan bellach ynghlwm wrth y wal gan gadwynau.</p> <p>Archebwyd llenni tafladwy ym mis Mehefin 2017. Mae'r cynnyrch allan o stoc gyda'r cyflenwr, ond bydd yn cael ei ddosbarthu yn y pythefnos nesaf.</p>	<p>Rheolwr y Practis</p> <p>Nyrs Arwain y Practis</p>	<p>ar 24 Mehefin 2017</p> <p>Cwblhawyd ar 12 Gorffennaf 2017</p> <p>Erbyn 31 Gorffennaf 2017</p>
<p>Rhaid i'r practis gyflwyno system drylwyr, agored a thryloyw er mwyn trafod a gwerthuso digwyddiadau o bwys.</p>	<p>3.1 Gofal diogel a chlinigol effeithiol</p>	<p>Protocol a thempled Dadansoddi Digwyddiadau o Bwys wedi'u datblygu a'u dosbarthu ymhlith yr holl staff.</p> <p>Adolygiad o ran Dadansoddi Digwyddiadau o Bwys wedi'i ychwanegu fel eitem safonol ar agendâu cyfarfodydd practis misol.</p>	<p>Rheolwr y Practis</p>	<p>Erbyn 31 Gorffennaf 2017</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r practis gyflwyno systemau sy'n caniatáu gwerthuso sicrwydd ansawdd crynhoi gwybodaeth yn rheolaidd.	3.5 Cadw cofnodion	Hyfforddiant diweddarau ar grynhoi wedi'i drefnu ar gyfer y staff. Cynnal archwiliad ar hap o 10% o nodiadau wedi'u crynhoi bob mis.	Goruchwyliwr Dros Dro y Feddygfa	Erbyn 31 Gorffennaf 2017
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Rhaid i'r practis gyflwyno systemau sy'n caniatáu i arfarnu achosion clinigol ac adolygu achosion clinigol gan gymheiriaid fod yn elfennau hanfodol o'r systemau sicrhau ansawdd yn y practis.	Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd	Arfarnu achosion clinigol wedi'i ychwanegu fel eitem safonol yn ystod y cyfarfodydd clinigol misol a gynhelir. Bydd pob aelod o'r staff clinigol yn mynychu'r rhan hon o'r cyfarfod clinigol er mwyn trafod a rhannu gwybodaeth am achosion clinigol, a darparu adolygiad gan gymheiriaid.	Rheolwr y Practis	Erbyn 31 Awst 2017

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd ag atebolrwydd a chyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella'n cael ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras):

Swydd:

Dyddiad: